

Cystadleuaeth y Gadair, Eisteddfod Penrhyn-coch 2009

'Taith'

Fel defod daeth ei dyfodiad – gloyw.

Goleua'i bedyddiad

Y llethrau a daeth llithriad

Fel swyn, i ddwyn ei rhyddhad.

Harddwch, tarddu

O'r gro mor gry'.

Ar dân, ar daith,

Gwibio, gobaith.

A'i nerth yn wyn

Ysgafn ddisgyn.

Un llinyn, nid yw'n llonydd

A llenwi y mae'r llynnoedd.

Ei halaw'n swyno'r moelydd,

Un malwr ymysg miloedd.

O'r niwl ymostwng mae'r nant,

Ymdroi, a ffoi'n ddiffuant.

Dros garnedd yn nadreddu,

Heidia'r dŵr i'r dyfnder du.

Yn arllwys yn glwys o'r Creigiau Gleision,

Yn gwaedu dros yr Ysgolion Duon.

Tiroedd y Nefoedd yw Cwm Anafon

A'r gwynt o'r môr yn pwyo'r copaon,

Y moelydd ar eu hymylon – meini

Yn gewri, a'r haen eira yn goron.

O ffiniau Cwm y Ffynnon

O afael gref y Foel Gron.

Yn trafod creigiau Tryfan,

Naddu, lledu tua'r llan.

Mor hardd Clogwyn Du'r Arddu
O dir Pen yr Helgi Du,
A'r lleuad uwchlaw'r Lliwedd,
Yr Elen, mor hen, mewn hedd.
Ei thaith, un maith, ymwthio
O'r brig i ehangder bro.

Drwy'r cerrig daeth ei rhigwm – ei halaw
O'i chalon yn fwrlwm,
Yn rasio heb fod rheswm,
O'r carn ystumiodd i'r cwm.

Anochel, rhaid ffarwelio,
A'i ffawd, yw llithro ar ffo,
Yn llwm, yn araf ei lli
O erwau aur Eryri.

I'w herydu daeth ei phryder – ei phoen
A'i ffydd ddaeth yn ofer,
Rhy hwyr deallodd yr her
A'i haberth aeth i'r aber.

Llwynog